# Cyfres Cynllunio:
# 9 – Cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach

Hysbysiad Hwylus Hydref 2012

## Beth yw cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach?

Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach (microgynhyrchu) yn cynnwys gosod paneli solar a thyrbinau gwynt ar eiddo domestig ac annomestig, yn ogystal â gosodiadau adnewyddadwy a charbon isel yn yr eiddo hyn, er enghraifft, pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear neu o'r aer, systemau biomás neu systemau gwres a phŵer cyfunedig (CHP).

## Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli?

Amlinellir polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy yn adrannau 12.8 i 12.10 yn **Rhifyn 4 Polisi Cynllunio Cymru (2011)** a **Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy**. Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ynni Cymru: Newid Carbon Isel ym mis Mawrth 2012**. Polisi'r Llywodraeth yw annog gosod cyfarpar ynni adnewyddadwy a charbon isel graddfa fach ar y cyd â mesurau effeithlonrwydd ynni a datblygiadau ynni adnewyddadwy graddfa fawr.

Ystyrir unrhyw fath o offer ynni yn yr awyr agored yn ddatblygu. Ystyrir rhywfaint o'r cyfarpar hyn yn 'ddatblygu a ganiateir' [1] ac, felly, nid oes angen caniatâd cynllunio arnynt, tra bo mathau eraill yn golygu gorfod gwneud cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol.

## Pa fath o gyfarpar sy'n ddatblygu a ganiateir?

At ddibenion presennol hawliau datblygu a ganiateir mewn eiddo domestig, diffnir microgynhyrchu yn *Neddf Ynni 2004* fel a ganlyn:

- Technolegau sy'n cynhyrchu **trydan** – hyd at 50 cilowat (kW)
    - Gan gynnwys paneli ffotofoltäig,, paneli solar a systemau gwres a phŵer micro-gyfunedig (CHP)
- Technolegay sy'n cynhyrchu **gwres (thermol)** – hyd at 45 kW
    - gan gynnwys pympiau gwres, biomás a solar thermol

### Eiddo Domestig

Mae newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i hawliau datblygu a ganiateir yn 2009 a 2012 wedi ei gwneud yn haws gosod cyfarpar micorgynhyrchu **domestig**.

Dyma yw'r mathau o gyfarpar ynni ar gyfer **eiddo domestig** (sef tai, fflatiau neu dai allan) sy'n cael eu hystyried yn 'ddatblygu a ganiateir' ar hyn o bryd:

[1] Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn ***Hysbysiad Hwylus: Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt***

- **Paneli solar ar doeau neu waliau** tai, fflatiau neu dai allan:
    - **Ar wal neu do ar oleddf** – hyd at ddyfnder o 200mm; ni chaiff y paneli gyrraedd yn uwch na rhan uchaf y to;
    - **Ar do gwastad** – mwy nag un metr o ymyl y to; ni chaiff ymwthio allan fwy nag un metr uwchlaw wyneb y to;
- **Un casgliad o baneli solar annibynnol** o fewn ffiniau tŷ neu fflat – dim mwy nag un casgliad solar annibynnol; ni chaiff fod yn uwch na phedwar metr (neu ddau fetr os yw o fewn pum metr i ffin y safle);
- **Un pwmp sy'n codi gwres o'r ddaear neu'r dŵr** – unrhyw le o fewn ffin y tŷ;
- **Un pwmp sy'n codi gwres o'r aer** – rhaid iddo gydymffurfio â safonau cynllunio'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu neu safonau cyfatebol[2]; ni chaiff tyrbin gwynt fod wedi'i osod eisoes yno; ni chaiff yr uned gywasgu fod yn fwy nag un metr ciwbig; ni chaiff fod ar do â goleddf nag o fewn tri metr i ochr to gwastad; ni chaiff fod ar do neu wal sy'n wynebu priffordd a dim ond at ddibenion gwresogi y gellir ei ddefnyddio;
- **Un simnai** – ar gyfer system wresogi biomás (hyd at un metr uwchben uchder y to);
- **Un tyrbin gwynt annibynnol** – ni chaiff pwmp sy'n codi gwres o'r aer fod wedi'i osod eisoes ar y safle; ni chaiff llafnau'r tyrbin fod yn adlewyrchol, rhaid i'r llafnau fod bum metr uwchben lefel y ddaear ac ni chaiff yr ardal a ysgubir gan y tyrbin fod yn fwy na 9.6 metr sgwâr; ni chaiff fod yn uwch na 11.1 metr; ni chaiff y tyrbin fod yn nes at y ffin na 110% o uchder y tyrbin; ni chaiff fod ar dir 'wedi'i ddiogelu'[3]; ac
- **Un mast mesur y gwynt dros dro (hyd at 12 mis)[4]** – ni chaiff tyrbin gwynt na phwmp sy'n codi gwres o'r aer fod wedi'i osod eisoes ar y safle; rhaid i'r mast fod yn is na 11.1 metr; ni chaiff fod yn nes at y ffin na 110% o uchder y mast; ni chaiff mast mesur y gwynt fod wedi'i osod yn yr un lleoliad yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

Yn achos paneli solar (gan gynnwys paneli solar annibynnol), pympiau sy'n codi gwres o'r aer a thyrbinau gwynt, mae datblygu a ganiateir yn amodol ar leihau'r effaith ar amwynder yr ardal a'r effaith weledol ar dŷ, fflat neu dŷ allan, a rhaid cael gwared ar y cyfarpar os nad oes ei angen mwyach.

Nid oes cyfyngiadau mewn datblygu a ganiateir o ran **cyfanswm y trydan a gynhyrchir** mewn anheddau, ond ar gyfer systemau solar annibynnol, mae cyfyngiadau o ran maint y casgliad. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer systemau biomás a systemau gwres a phŵer cyfunedig sydd wedi'u lleoli mewn adeilad.

Gall fod meysydd eraill lle y gallai hawliau datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol. Gall awdurdod cynllunio lleol roi cyfarwyddyd i dynnu hawliau datblygu a ganiateir yn ôl mewn ardal benodol, os yw'n ysytried hynny'n angenrheidiol. Rhaid i gyfarwyddyd o'r fath gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

[2] Safonau'r cynnyrch a safonau gosod ar gyfer pympiau sy'n codi gwres o'r aer a nodir yng Nghynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu MCS 020 - rhifyn 1.0 dyddiedig 19 Awst 2011 a gyhoeddwyd gan Gemserv Cyfyngedig.
[3] Tir sydd wedi'i ddiogelu at ddibenion hedfan awyrennau neu amddiffyn
[4] Mast ar gyfer mesur cyflymder a chyfeiriad y gwynt;

## Eiddo Annomestig

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2010, gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau pellach i hawliau datblygu a ganiateir er mwyn 'caniatáu' rhai mathau o gyfarpar mewn **eiddo annomestig** hefyd o fis Hydref 2012.[5]

Ychwanegwyd chwe dosbarth newydd o ddatblygu a ganiateir ar gyfer gosod rhai mathau o gyfarpar microgynhyrchu, sef **paneli solar**, **cyfres o baneli solar annibynnol**, **pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear** ,**pympiau sy'n codi gwres o'r dŵr**, **simneiau sy'n rhan o systemau gwresogi biomás** a **simneiau sy'n rhan o systemau gwres a phŵer cyfunedig**. Mae'r canllawiau ar gyfer y datblygiadau hyn yn debyg i'r canllawiau ar gyfer eiddo domestig, ond ddim yr union yr un fath.

Mae'r newidiadau hefyd yn egluro bod hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i gyfarpar microgynhyrchu mewn **adeiladau ar dir amaethyddol neu dir coedwigaeth**, ac yn benodol **tyrbinau hydro**, **boeleri biomás** a systemau **treulio anaerobig**. Gellir hefyd ddefnyddio'r adeiladau i storio tanwydd a gwastraff cysylltiedig, cyhyd â bod y tanwydd neu'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu ar y tir amaethyddol neu'r tir coedwigaeth neu gan y boeler neu'r system.

## Pryd mae angen caniatâd cynllunio?

Ni chaiff gosod rhai o'r technolegau ynni y soniwyd amdanynt uchod ei ystyried yn 'ddatblygu a ganiateir' mewn **ardaloedd cadwraeth**, **safleoedd treftadaeth y byd**, **ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol** neu **safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig** neu os ydynt yn effeithio ar **adeilad rhestredig**. Mewn rhai achosion, felly, byddai angen caniatâd cynllunio o hyd. Nid yw'r hawliau datblygu a ganaiteir yn gymwys i **fflatiau** ond pan fo'r fflat wedi'i leoli mewn adeilad sydd ond yn cynnwys fflatiau. Os yw'r fflat uwchben siop, nid yw'r hawliau'n gymwys[6].

Cafodd tyrbinau gwynt a phympiau sy'n codi gwres o'r aer eu heithrio o'r newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir a gyflwynwyd yn 2009 oherwydd pryderon ynhgylch sŵn. Mae pympiau sy'n codi gwres o'r aer bellach yn ddatblygu a ganiateir ar eiddio domestig ac annomestig. **Fodd bynnag, mae angen caniatâd cynllunio o hyd ar gyfer trybinau gwynt ar eiddio annomestig, er y gellir gosod un tyrbin annibynnol ar eiddo domestig. Mae angen caniatâd cynllunio i osod tyrbinau gwynt ar wal neu do.**

## Ystyriaethau eraill

Yn ôl Llywodraeth Cymru, gall nifer o ystyriaethau ddylanwadu ar y math o gyfarpar a osodir a'i leoliad ar eiddo domestig neu o fewn ffiniau eiddo domestig.

Dylid ystyried yr effaith ar:

- Gymdogion;
- Cymeriad y cartref a'r stryd;
- Safleoedd a gweddillion o ddiddordeb archaeolegol;
- Lleoliad cyfagos parc hanesyddol neu goed gerddi (yn enwedig coed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed); a
- Rhywogaethau a bioamrywiaeth a warchodir.[7]

---

[5] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ar Ficrogynhyrchu a Thechnolegau Ynni Carbon Isel***, 2010 [fel ar 19 Medi 2012]
[6] Llywodraeth Cymru, ***Cynhyrchu eich Ynni eich Hunan: y Rheoliadau Cynllunio Presennol***, Tachwedd 2011 [fel ar 17 Medi 2012]
[7] *Ibid*

Efallai y bydd angen sicrhau mathau eraill o ganiatâd, yn ddibynnol ar y system ynni adnewyddadwy, er enghraifft:

- **Caniatâd adeilad rhestredig** - os yw adeilad wedi'i restru;
- **Caniatâd ardal gadwraeth** - os yw'r datblygiad mewn ardal gadwraeth;
- **Coed** – mae llawer o goed yn cael eu gwarchod gan orchmynion cadw coed;
- **Rheoliadau Cynllunio** – Bydd angen i waith adeiladu newydd yn aml gydymffurfio â rheoliadau cynllunio;
- **Bywyd gwyllt** – gall rhai adeiladau fod yn gartref i ystlumod neu'n lloches i rywogaethau eraill a warchodir – rhoddir gwarchodaeth arbennig i'r rhain; a
- **Thrwyddedau Asiantaeth yr Amgylchedd.**[8]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gynllunio ar gyfer **cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach**, cysylltwch â **Graham Winter** (**Graham.Winter@Cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Mae Hysbysiad Hwylus Microgynhyrchu** y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi rhagor o wybodaeth am y mathau o dechnolegau microgynhyrchu a'r ysgogiadau ariannol sydd ar gael ar gyfer eu gosod.

**Gweler hefyd:**

**Llywodraeth Cymru**
Mae'r adran ar gynllunio ar wefan Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth sy'n cynnwys:
**Cynhyrchu eich Ynni Adnewyddadwy eich Hunan: Canllawiau Cynllunio** (er nad yw'r rhain wedi'u ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd i ddatblygu a ganiateir yn 2012) a
**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy**.

**Adroddiadau ymchwil ENTEC**
Y **Cyngor Pŵer Micro** - a sefydlwyd i ymchwilio i ficrogynhyrchu a'i hyrwyddo
**Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni** – gwybodaeth am agweddau ariannol ar gynhyrchu eich ynni eich hunan
**Y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu** – gwybodaeth am gyfarpar a gosodwyr microgynhyrchu
**Cynllun Solar Keymark** – gwybodaeth am gyfarpar a chyflenwyr solar thermol

**Cymorth Cynllunio Cymru**
Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio.   Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

[8] Llywodraeth Cymru, ***Cynhyrchu eich Ynni eich Hunan: y Rheoliadau Cynllunio Presennol***, Tachwedd 2011 [fel ar 17 Medi 2012]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**Porth cynllunio**

Y **porth cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys ond yn berthnasol i Loegr.

**Hysbysiadau Hwylus cynllunio eraill y Gwasanaeth Ymchwil:**

- **Polisi cynllunio cenedlaethol**;
- **Polisi cynllunio lleol**;
- **Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt**;
- **Caniatâd cynllunio**;
- **Galw ceisiadau cynllunio i mewn**;
- **Apeliadau**;
- **Gorfodi**;
- **Offer telegyfathrebu**

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhyrchu'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Rhif yr ymchwiliad: 12/2555**